Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

2 Chwefror 2021

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Rwy'n falch o'ch hysbysu bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Fel y gwyddoch efallai, gwnaethom eich gwahodd chi a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i roi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad. Yn anffodus, oherwydd amseriad y sesiwn dystiolaeth digwyddiadau cyllidol yn y DU, gwrthodwyd y gwahoddiadau. Ers hynny, rydym wedi cynnig dau ddyddiad ym mis Mawrth 2021, fel y gallwn ni glywed gennych cyn ein dadl y Cyfarfod Llawn, a drefnwyd ar gyfer 24 Mawrth 2021. Rydym yn falch iawn eich bod wedi cytuno i fod yn bresennol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod eich tystiolaeth yn hanfodol i'r ymchwiliad. Deallaf ichi gael gwahoddiad i fod yn bresennol ar 3 neu ar 10 Mawrth, pan fydd y Pwyllgor yn cyfarfod, ond nid yw fy swyddogion wedi clywed gan eich swyddfa eto ynghylch addasrwydd y dyddiadau hyn. Os nad yw'r naill ddyddiad na'r llall yn addas, rwy'n fodlon ceisio darparu ar gyfer dyddiad a fyddai'n addas i chi y tu allan i slot ein Pwyllgor. Byddai'n ddefnyddiol at ddibenion cynllunio ein gwaith pe bai modd cadarnhau dyddiad ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor erbyn 15 Chwefror.

Mae ein hadroddiad yn nodi nifer o faterion lle mae angen gwybodaeth bellach gan Lywodraeth y DU, ac mae'r rhain yn feysydd y bydd Aelodau am eu harchwilio ymhellach gyda chi yn ystod eich sesiwn dystiolaeth:

- Pennod 4: Newidiadau i drethi yn y dyfodol - Dull datganoli treth a chreu trethi newydd;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

- Pennod 6: Arian a ddyrennir gan Lywodraeth y DU - Amseriad digwyddiadau Cyllidol y DU; tryloywder ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch penderfyniadau cyllido; y potensial ar gyfer adolygu fformiwla Barnett; a chyfrifo ffactorau cymaroldeb a ddefnyddir i bennu dyraniadau cyllid trwy fformiwla Barnett;
- Pennod 7: Pwerau benthyca - ystyried cynyddu pwerau benthyca;
- Pennod 8: Dulliau o reoli'r gyllideb - cais Llywodraeth Cymru i ddwyn rhywfaint o'i chyllid COVID ychwanegol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf;
- Pennod 9: Materion ychwanegol i'w hystyried - y mecanwaith a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i wneud penderfyniadau cyllido a'r broses i Lywodraeth Cymru herio penderfyniadau o'r fath.

Ar 8 Ionawr 2021, fe ysgrifennais at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn gofyn am ei farn am nifer o faterion, ac rwyf wedi ysgrifennu ato eto ers i adroddiad y Pwyllgor gael ei gyhoeddi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.